

**Cofnodion y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl  
Dydd Mercher 27 Mehefin 2018, 10:00 – 11.30**

**Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn bresennol**

Julie James AC, Paul Dear (Cadeirydd)	Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Rhian Davies	Anabledd Cymru
Joanna Fashan	Whizz Kidz
Martyn Jones	Anabledd Dysgu Cymru
Rebecca Woolley	Action on Hearing Loss Cymru
Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
Lisa Pollard	Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Elaine Hepple	Llywodraeth Cymru (Tîm Cydraddoldeb)
Linda Davis	Llywodraeth Cymru (Diwygio Lles)
Lucy Oliver	Llywodraeth Cymru (Trysorlys Cymru)
Melanie James	Llywodraeth Cymru (SHELL)
Rachel Hellard	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Lorraine Davies	Yr Adran Gwaith a Phensiynau

**Ymddiheuriadau**

Daniel Biddle	Nationwide Accessibility Consultants
Andrea Gordon	Cŵn Tywys Cymru
Tracey Goode	GIG Cymru
Catherine Lewis	Plant yng Nghymru
Danni Richards	Plant yng Nghymru
Fiona Reid	Chwaraeon Anabledd Cymru
Daniel Hurford	CLILC
Maggie Hampton	Disability Action Cymru
Wayne Crocker	Mencap

**1. Croeso**

***Paul Dear, Llywodraeth Cymru***

1.1 Croesawyd pawb gan Paul Dear a nodwyd yr ymddiheuriadau.

**2. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol**

***Paul Dear, Llywodraeth Cymru***

2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2017 yn gofnod cywir.

2.2 Roedd dau gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

1. *Cam gweithredu: Aelodau'r Fforwm i anfon awgrymiadau am gynrychiolwyr ychwanegol o'r Trydydd Sector ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb i Lywodraeth Cymru.*
2. *Cam gweithredu: Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Gadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb gynnwys Troseddau Casineb yn erbyn Pobl Anabl ar agenda un o'i gyfarfodydd cyn gynted â phosibl yn 2018. Gwahodd Catherine Lewis, Joanna Fashan, Miranda Evans, Karen Warner a Martyn Jones i gyfarfod y Bwrdd.*

2.3 Mae'r ddau gam gweithredu wedi cael eu cyflawni.

### **3. Troseddau Casineb yn erbyn Pobl Anabl**

#### ***Paul Dear - Llywodraeth Cymru***

- 3.1 Trafodwyd troseddau casineb yn erbyn pobl anabl yng nghyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb (y Bwrdd) ym mis Ionawr ac roedd rhai cynrychiolwyr o'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl yn bresennol (y Fforwm) yn y cyfarfod hwnnw. Yn hytrach na cheisio atgyfodi'r Grŵp Gweithredu ar Droseddau Casineb yn erbyn Pobl Anabl, cytunodd y Bwrdd y byddai'n well sicrhau mwy o gyswllt uniongyrchol rhwng y Fforwm a'r Bwrdd. Cynigiwyd y dylai'r Fforwm gael eitem sefydlog ar droseddau casineb ac y byddai'r Bwrdd yn cael adborth o gyfarfodydd y Fforwm ac yn ymateb iddo.
- 3.2 Yn ystod y cyfarfod, cafwyd adroddiad gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar gyfraddau gadael – hynny yw, nifer y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt ond na chaiff unrhyw un eu herlyn na'u colffarnu amdanynt. Bu lleihad yn nifer y Troseddau Casineb yn erbyn Pobl Anabl a gafodd eu herlyn, gydag amcanestyniad o 33 ar gyfer 17/18 (3 yn ardal Dyfed Powys, 4 yn ardal Gwent, 12 yn ardal Gogledd Cymru a 15 yn ardal Heddlu De Cymru). Yn genedlaethol, mae cyfran y troseddau casineb yn erbyn pobl anabl y rhoddir gwybod amdanynt ac a gaiff eu herlyn wedi gostwng i 20%.
- 3.3 Trafodwyd p'un ai'r ddeddfwriaeth troseddau casineb bresennol yw un o'r rhesymau pam bod llai o achosion yn mynd i'r llys. Gall y ffactorau sy'n cyfrannu at hyn gynnwys y ffaith bod troseddau casineb yn anodd eu categorio a'r anhawster sy'n codi mewn achosion pan y gallai dioddefwyr fod wedi cael eu targedu oherwydd anabledd ond nad oes gelyniaeth amlwg sy'n cyfeirio at anabledd y dioddefwr. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi llobio am newid y ddeddfwriaeth ond, ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth y DU yn awyddus i wneud hynny. Un rheswm arall a allai egluro'r lleihad yn nifer yr erlyniadau yw bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhy ofalus wrth wneud penderfyniadau erlyn.
- 3.4 Un cam gweithredu y cytunwyd arno yn y cyfarfod oedd y byddai Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddluoedd yn ystyried "cyfraddau gadael" o hapsampl o achosion o droseddau casineb yn erbyn pobl anabl, er mwyn gweld ar ba gam

y mae achosion yn methu neu'n dirwyn i ben mewn ffyrdd eraill, a dadansoddi os a ble y mae angen cymryd camau gweithredu.

- 3.5 Cafwyd diweddariad gan Heddlu Gwent yn ystod y cyfarfod hwn; o'r 90 o achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, roedd naw ohonynt wedi cyrraedd Gwasanaeth Erllyn y Goron a dim ond un ohonynt a gafodd ei erlyn gyda'r codiad ar gyfer Troseddau Casineb (cafodd dau arall eu herlyn heb y codiad).
- 3.6 Mynegodd aelodau o'r Fforwm syndod a siom ynghylch y lefelau gadael uchel iawn sy'n cael eu cofnodi. Derbyniodd y Fforwm y cynigion yn 3.1 y dylai Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb a'r Fforwm Cyfiawnder i Bobl Anabl barhau i drafod y materion hyn a gofynnwyd am ddiweddariad arall ar gyfraddau gadael yn y cyfarfod nesaf.
- 3.7 Nodwyd bod Matt Williams o Brifysgol Caerdydd a Heddlu Gwent yn gweithio ar Droseddau Casineb ar hyn o bryd.

#### **4. Diweddariad ar Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol *Paul Dear / Lisa Pollard***

- 4.1 Amlinellodd Lisa Pollard y gwaith sy'n cael ei wneud yn adrannau Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol.
- 4.2 Cyfarfu'r Grŵp Llywio ar gyfer Byw'n Annibynnol ym mis Mai i drafod y fframwaith diwygiedig. Cytunwyd y dylid newid o gael un ddogfen i gael cyfres o ddogfennau, gan gynnwys y Fframwaith ei hun, cynllun gweithredu y gellid ei ddiweddarau, enghreifftiau o arfer da, cwestiynau cyffredin ac ati.
- 4.3 Disgwylir i'r brif ddogfen – y Fframwaith diwygiedig – gael ei chyhoeddi yn yr hydref, a'r teitl dros dro yw "Gweithredu ar Anabledd: Yr Hawl i Fyw'n Annibynnol".

#### **5. Cyflogaeth**

- Cynllun Cyflogadwyedd (Lucy Oliver, Llywodraeth Cymru)
  - Prentisiaethau (Melanie James, Llywodraeth Cymru)
  - Mynediad i Waith (Rachel Hellard, Yr Adran Gwaith a Phensiynau)
- 5.1 Hysbysodd Lucy Oliver y Fforwm fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ddogfen Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd ym mis Mawrth. Mae'r ddogfen yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn helpu pobl i feithrin sgiliau a magu hyder er mwyn dod o hyd i waith ac aros mewn gwaith. Bydd hefyd yn helpu cyflogwyr i ddod o hyd i'r gweithlu sydd ei angen arnynt er mwyn i'w busnesau ffynnu. Mae pedair prif thema i'r cynllun:
    - cymorth cyflogadwyedd a gaiff ei deilwra i'r unigolyn.
    - cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio a helpu eu staff.
    - ymateb i fylchau presennol ac arfaethedig mewn sgiliau.

- paratoi ar gyfer newid sylfaenol ym myd gwaith.
- 5.2 Ar hyn o bryd, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu targed ar gyfer anabledd a chyflogadwyedd a bydd digwyddiad bord gron ar anabledd, a gaiff ei hwyluso gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ddydd Gwener 24 Mehefin, yn llywio'r gwaith hwn.
- 5.3 Mae Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, yn cyfarfod â chyflogwyr mawr yng Nghymru ac yn eu herio i fod yn fwy cynhwysol.
- 5.4 Caiff adroddiad ar gynnydd y Cynllun Cyflogadwyedd ei gyhoeddi ym mis Medi.
- 5.5 Cafwyd diweddariad gan Melanie James ar weithgarwch nawr ac yn y dyfodol i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n dilyn prentisiaethau. (Atodiad A)
- 5.5.1 Arweiniodd hyn at drafodaeth am y ffactorau canfyddedig sy'n rhwystro pobl ifanc anabl rhag dilyn prentisiaethau, gan gynnwys:
- Teimlad nad yw prentisiaethau yn addas iddynt, agweddau porthgeidwaid tuag atynt.
  - Rhieni sy'n pryderu na fydd eu plant yn gallu llwyddo.
  - Sgiliau hanfodol, yr angen i gyflogwyr gydnabod yr hyn y gall unigolion ei wneud yn hytrach na chanolbwyntio ar eu prinder cymwysterau.
- 5.6 Amlinellodd Rae Hellard yr hyn y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ei wneud er mwyn helpu pobl anabl i mewn i waith. Mae cyflwyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r taflenni gwybodaeth am y Cynllun Cyflogwyr Bach wedi'u hatodi.
- 5.7 Siaradodd Rae hefyd am yr hyn y gall yr Adran Gwaith a Phensiynau ei wneud er mwyn helpu cyflogwyr i ddod yn Hyderus o ran Anabledd.
- 5.7.1 Arweiniodd hyn at drafodaeth am yr angen cyffredinol i addysgu cyflogwyr i ddod yn Hyderus o ran Anabledd mewn ffordd ystyrlon. Mae hyn yn arbennig o anodd yng Nghymru lle mae 92% o fusnesau yn cyflogi llai na phump person.
- 5.7 Darparodd Julie James wybodaeth am fentrau eraill a fydd yn helpu i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynd i mewn i waith, gan gynnwys:
- 5.7.1 Caiff Cadeirydd y Comisiwn Gwaith Teg newydd ei benodi'n fuan. Mae'r hyn y mae gwahanol unigolion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig, yn ei ystyried yn "waith teg" yn amrywio'n eang. Bydd cydgyfeiriadedd (*intersectionality*) cyflogeion yn y gweithle yn ystyriaeth i'r Comisiynydd.
- 5.7.2 Bydd cynlluniau peilot "Swyddi Gwell yn Nes at Adref" yn dechrau yn yr hydref. Bydd angen i swyddogion gael adborth gan y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y rhain.

- 5.7.3 Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi yn cynnig ffordd i Lywodraeth Cymru annog amrywiaeth a chynhwysiant, e.e. gallai sefydliad sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru orfod ymrwymo i fod yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd fel un o'r amodau ariannu.
- 5.7.4 Bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais ar alluoedd plant anabl; yn rhy aml, disgwyliadau isel sydd i'r garfan hon o ddysgwyr.
- 5.8 Cyfeiriodd Linda Davis at natur negyddol y rhan fwyaf o ffurflenni cais sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n "bod" ar unigolyn yn hytrach na'r hyn sy'n rhwystro'r unigolyn rhag bod yn gyflogai.

## **6. Darpariaeth sefydlu i blant â nam ar eu golwg *Peter Jones Cŵn Tywys Cymru***

- 6.1 Eglurodd Peter fod adroddiad 2016 ar wasanaethau sefydlu ar gyfer namau ar y golwg yn seiliedig ar ddata 2015 a bod y ddarpariaeth yng Nghymru wedi cynyddu ers hynny. Mae 7.5 o weithwyr arbenigol yn y 22 awdurdod lleol ac nid oes unrhyw wasanaethau sefydlu i blant mewn saith awdurdod lleol.
- 6.2. Mae Cŵn Tywys Cymru yn croesawu'r cymorth polisi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ond yn ystod y cyfnodau hyn o gyni, nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu rhwymedigaethau mewn perthynas â'r grŵp hwn o bobl.
- 6.3 Cytunwyd y dylai'r eitem hon gael ei chynnwys yn nghyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Rhagfyr pan fydd Daniel Hurford o CLILC yn bresennol.
- 6.4 Dywedodd Julie James y dylid hefyd dynnu'r mater i sylw Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i gysylltu â CLILC er mwyn casglu gwybodaeth yn barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm.**

**Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i sicrhau bod adborth yn cael ei roi i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.**

## **7. Unrhyw fater arall / dyddiad y cyfarfod nesaf**

- 7.1 Roedd Martyn Jones am ganmol Llywodraeth Cymru am y weledigaeth a'r strategaeth a nodir yn y Rhaglen Gwella Bywydau.
- 7.2 Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr ei gadarnhau yn agosach at y diwrnod.
- 7.3 Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod, felly daeth y cyfarfod i ben am 11:25.



**Diweddariad gan Uned Prentisiaethau Llywodraeth Cymru ar weithgarwch nawr ac yn y dyfodol i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n dilyn prentisiaethau.**

## **GWELLA MYNEDIAD A CHYRHAEDDIAD**

**Rhoi'r Rhaflen Gwaith ac Iechyd a'r Rhaflen Prentisiaethau ar waith ar yr un pryd:** Mae'r Uned Prentisiaethau wedi bod yn cydweithio â Remploy i baru ei gleientiaid â chyfleoedd i ddilyn prentisiaethau. Cynhaliwyd gweithdai yn swyddfeydd Remploy ar hyd a lled Cymru i hwyluso cydberthnasau rhwng ein rhwydwaith o ddarparwyr a gweithwyr achos Remploy. Mae Cydlynnydd Prentisiaethau Cymru Gyfan Remploy yn hwyluso'r gwaith a wnawn ar y cyd.

**Gwaith Marchnata wedi'i Dargedu:** Y llynedd gwnaethom lansio ymgyrch farchnata a oedd yn canolbwyntio ar astudiaethau achos a oedd yn cynnwys pobl o grwpiau gwarchoddedig. Eleni byddwn yn datblygu ymgyrch farchnata sy'n canolbwyntio'n benodol ar brentisiaid sydd â chyflyrau iechyd meddwl.

**Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Ym mis Mehefin 2018 cafodd Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei gyhoeddi sy'n cynnwys ystod o adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol gan gynnwys canllawiau; awgrymiadau; taflenni gwaith; fideos addysgol, dolenni gwe a dolenni cyfryngau cymdeithasol. Nod y Pecyn yw helpu Darparwyr i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ymarferol mewn amgylchedd Dysgu Seiliedig ar Waith.

## **CYNLLUN GWEITHREDU AR ANABLEDD**

**Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau:** Mae'r Cynllun hwn yn deillio o argymhelliad a wnaed yn Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Brentisiaethau (Chwefror 2018). Gan gydnabod y bydd llwyddiant y Cynllun Gweithredu yn dibynnu ar fewnbwn ac ymrwymiad rhanddeiliaid, cynhaliodd swyddogion y digwyddiad 'Bord Gron ar Brentisiaethau Cynhwysol i Bobl Anabl' cyntaf ar 6 Mehefin. Ymhlith y rhanddeiliaid allanol roedd: Ymddiriedolaeth Shaw; Remploy; Anabledd Cymru; Elite Supported Employment; Leonard Cheshire; RNIB; y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar a Chanolfan Iechyd Meddwl Prifysgol Caerdydd.

Yn ystod y digwyddiad bord gron, nodwyd bod angen canolbwyntio ar y canlynol:

- **Marchnata a chodi ymwybyddiaeth**
- **Modelau rôl**
- **Cymhellion**
- **Meini prawf mynediad ac ymadael hyblyg**
- **Data a datgelu**

- **Cymorth i unigolion**
- **Cymorth i gyflogwyr**
- **Cymorth i ddarparwyr**

O ganlyniad, mae swyddogion wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brentisiaethau Cynhwysol, sy'n cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol, a fydd yn cyfarfod bob pythefnos dros fisoedd yr haf. Nod y Grŵp fydd datblygu a llunio Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol a gaiff ei gyhoeddi yn yr hydref.

## **GWEITHGARWCH RHANDDEILIAID**

**Digwyddiad ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** Mae swyddogion yn bwriadu cynnal digwyddiad ar gyfer BBaChau er mwyn edrych ar fanteision gweithlu amrywiol. Yn ystod y digwyddiad hwn, byddwn yn rhannu modelau o arfer da ym maes recriwtio a'r manteision i gyflogwyr o gael gweithlu mwy cynhwysol ac amrywiol.

**Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru):** Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu Hyrwyddwr Cydraddoldeb Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ers mis Mehefin 2016. Nod y rôl yw cynnig strwythur cefnogol i'r rhwydwaith o ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith er mwyn eu helpu i gynyddu nifer y bobl o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl ag anableddau sy'n dilyn Prentisiaethau. Drwy ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydym yn gweithio gyda'n rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant i gynyddu nifer y bobl o grwpiau gwarchoddedig sy'n dilyn prentisiaethau a dod o hyd i ffyrdd ymarferol o ymestyn mynediad i'r rhaglen Prentisiaethau fel y gall unrhyw unigolyn, o unrhyw gefndir, lwyddo. Cafodd y cyllid ar gyfer y rôl hon ei ymestyn yn ddiweddar i 2021.

**Hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:** Yn gynharach eleni, gwnaethom gyllido hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i deilwra ar gyfer y rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant. Roedd y sesiynau addysgiadol a rhyngweithiol wedi denu cynulleidfa niferus ac wedi rhoi trosolwg o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswyddau Cydraddoldeb yng Nghymru; Anabledd; Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl ac Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig a Stereoteipio ar sail Rhyw.

## **GWAITH TRAWSLYWODRAETHOL**

**Rhaglen Cyflogadwyedd - Ffrwd Cydraddoldeb:** Mae swyddogion yr Uned Prentisiaethau yn cyfrannu at ac yn cymryd rhan yn y Rhaglen Cyflogadwyedd - Ffrwd Cydraddoldeb drawslywodraethol er mwyn sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu diwallu mewn ffordd gydlynol a chydgyssylltiedig.